TACTEG
GWYDDONIAETH

**CWESTIYNAU CWIS:**
**Bioleg - Iechyd: L5-7**

Rho ddau hanner y brawddegau isod mewn pâr.
Ysgrifenna'r ateb cywir (A-D) yn y blwch.

**A - trwy rannu bob 20 munud.**
**B - sy'n lladd germau, bydd yn achosi niwed i ni os byddwn yn eu llyncu.**
**C - tawelyddion, rhithbeiriau neu symbylyddion**
**CH - yr haenau protein ar ficro-organebau (antigenau).**
**D - clefyd y galon a rhydwelïau.**

1: Gall gwrthgyrff y corff dynol ganfod ...

| |
|---|
| |

2: Ysmygu yw prif achos ...

| |
|---|
| |

3: Gall bacteria ddyblu mewn nifer ...

| |
|---|
| |


4: Yn y corff dynol gall cyffuriau heb fod ar bresgripsiwn weithredu fel ...

| |
|---|
| |

5: Mae diheintyddion yn gemegau ...

| |
|---|
| |


©BBC




6: Gorffenna'r brawddegau yn y paragraff isod gan ddefnyddio'r geiriau o'r rhestr hon. Ysgrifenna'r gair cywir yn y bwlch.

**Atgynhyrchu**
**Annwyd**
**Pasteureiddio**
**Bathogenau**
**Gwrthfiotigau**

Gelwir germau a micro-organebau niweidiol sy'n effeithio ar bobl yn ____________________ . Yr afiechyd heintus a geir amlaf yw'r _________________________ cyffredin sef firws sy'n effeithio ar bibellau'r trwyn. Ychydig iawn o nodweddion pethau byw y mae firysau yn eu dangos heblaw am y gallu i _________________________ eu hunain, gorfodi celloedd heintus i gynhyrchu mwy o firysau ac felly lledaenu'r haint. Cemegau yw _________________________ sy'n cael eu rhoi fel moddion sy'n gweithio yn y gwaed a'r meinweoedd gan ddinistrio bacteria, ond nid ydyn nhw'n effeithio o gwbl ar firysau. Gellir lladd bacteria niweidiol mewn bwyd hylifol megis llaeth trwy broses wresogi gymedrol (63C am 20 munud). _________________________ yw'r enw ar hyn, ar ôl y gwyddonydd a ddaeth o hyd i'r broses.


©BBC

# ATEBION CWIS:
## Bioleg - Iechyd: L5-7

Rho ddau hanner y brawddegau isod mewn pâr.
Ysgrifenna'r ateb cywir (A-D) yn y blwch.

**A - trwy rannu bob 20 munud.**
**B - sy'n lladd germau, bydd yn achosi niwed i ni os byddwn yn eu llyncu.**
**C - tawelyddion, rhithbeiriau neu symbylyddion**
**CH - yr haenau protein ar ficro-organebau (antigenau).**
**D - clefyd y galon a rhydwelïau.**

1: Gall gwrthgyrff y corff dynol ganfod ...

**CH - yr haenau protein ar ficro-organebau (antigenau)**

2: Ysmygu yw prif achos ...

**D - clefyd y galon a rhydwelïau**

3: Gall bacteria ddyblu mewn nifer ...

**A - trwy rannu bob 20 munud**


4: Yn y corff dynol gall cyffuriau heb fod ar bresgripsiwn weithredu fel ...

**C - tawelyddion, rhithbeiriau neu symbylyddion**

5: Mae diheintyddion yn gemegau ...

**B - sy'n lladd germau, bydd yn achosi niwed i ni os byddwn yn eu llyncu**


©BBC




6: Gorffenna'r brawddegau yn y paragraff isod gan ddefnyddio'r geiriau o'r rhestr hon. Ysgrifenna'r gair cywir yn y bwlch.

**Atgynhyrchu**
**Annwyd**
**Pasteureiddio**
**Bathogenau**
**Gwrthfiotigau**

Gelwir germau a micro-organebau niweidiol sy'n effeithio ar bobl yn **bathogenau** . Yr afiechyd heintus a geir amlaf yw'r **annwyd** cyffredin sef firws sy'n effeithio ar bibellau'r trwyn. Ychydig iawn o nodweddion pethau byw y mae firysau yn eu dangos heblaw am y gallu i **atgynhyrchu** eu hunain, gorfodi celloedd heintus i gynhyrchu mwy o firysau ac felly lledaenu'r haint. Cemegau yw **gwrthfiotigau** sy'n cael eu rhoi fel moddion sy'n gweithio yn y gwaed a'r meinweoedd gan ddinistrio bacteria, ond nid ydyn nhw'n effeithio o gwbl ar firysau. Gellir lladd bacteria niweidiol mewn bwyd hylifol megis llaeth trwy broses wresogi gymedrol (63C am 20 munud). **Pasteureiddio** yw'r enw ar hyn, ar ôl y gwyddonydd a ddaeth o hyd i'r broses.


©BBC